TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# eLearning - Certified Digital Strategy & Planning Specialist



**Yn gryno**

Mae Cyfrif Dysgu Personol yn fenter newydd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ffordd hyblyg a rhad ac am ddim o ddysgu. Bydd y fenter yn rhoi cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sy'n cynnig ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu o amgylch eu ffordd bresennol o fyw.

DMI yw'r safon fyd-eang profedig ar gyfer ardystiad marchnata digidol gyda 100,000+ o aelodau a thros 20,000+ o weithwyr proffesiynol ardystiedig.

Mae'r cwrs arbenigol hwn mewn Cynllunio a Strategaeth Ddigidol yn eich ardystio mewn marchnata digidol, ac yn eich trochi chi mewn cyfathrebiadau digidol, dadansoddeg, awtomeiddio marchnata, ffurfio strategaeth a chyllideb a mwy.

Dewch yn weithiwr proffesiynol marchnata digidol ardystiedig gyda DMI.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unrhyw un dros 19 oed, sy'n byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth ac yn ennill llai na £29,534 y

flwyddyn.

...unrhyw un sydd eisiau cychwyn gyrfa mewn marchnata digidol.

...pobl sydd eisiau newid gyrfa.

...entrepreneuriaid a pherchnogion busnesau bach.

...pobl mewn gyrfaoedd marchnata traddodiadol sydd eisiau diweddaru eu set sgiliau.

...unrhyw un sy'n gobeithio gweithredu strategaeth ddigidol ddiweddar o fewn eu cwmni.

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r modiwlau sy'n cael eu hastudio yn ystod y cwrs hwn yn cynnwys:

Cyflwyniad
Cyfathrebu Digidol
Awtomeiddio a Chyfathrebu
Dadansoddeg a Data Mawr
Cynllunio a Ffurfio Strategaeth
Cyfathrebu Traddodiadol
Sianelau Digidol
Cyllideb ac Adnoddau
Arweinyddiaeth Ddigidol

Ar ddiwedd y cwrs, byddwch yn weithiwr marchnata digidol proffesiynol ardystiedig gyda DMI.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, mae diddordeb brwd yn y pwnc yn ddigon.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Darperir y cwrs hwn drwy eDdysgu. Mae hyn yn golygu y dylech astudio mewn modd hunan-drefnedig wrth eich pwysau eich hun, gan ddefnyddio dyfais gyda chysylltiad i'r we.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r cwrs yn cynnwys arholiad sy'n cael ei oruchwylio ar-lein, ac mae angen dyfais sydd wedi cysylltu â'r we gyda meicroffon a gwe-gamera arnoch.



studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)